RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU
Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc

'Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor: Economi (Adeiladu economi gref); Pobl (Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb); Lleoedd (Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o fyw a gweithio ynddyn nhw).'

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig ei hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu rhoi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yn natblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Am y rheswm yma bydd y Rhaglenni Gwaith Craffu yn cael eu cyhoeddi am gyfnod o 6 mis a'u hadolygu bob chwarter.

PWYLLGOR CRAFFU – PLANT A PHOBL IFAINC					
Dyddiad/Amser	**Nod cyffredinol**	**Swyddog**	**Aelod o'r Cabinet**	**Gwahoddiad / Yn Bresennol**	**Craffu yn canolbwyntio ar...**
10 Gorffennaf 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach (Cyfarfod Addysg a Gwasanaethau i Blant ar y cyd)	• Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			**Craffu a Her –** Aelodau'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn trafod y rhaglen waith ar gyfer 2019/2020.
	• Gwaith Cyn Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant			**Craffu a Her –** Ymgymryd â gwaith cyn craffu ar yr Adroddiad Blynyddol i ganfod a yw'n werthusiad cywir o gyflawniad yr Awdurdod Lleol.
	• Anghenion o ran Hyfforddiant	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			Trafod a datblygu rhestr o ofynion hyfforddi ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc.
11 Medi 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	• Sut y caiff data ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant			Derbyn Carfan Ddata, Consortiwm Canolbarth y De, a fydd yn amlinellu'r

(Cyfarfod Addysg a Gwasanaethau i Blant ar y cyd)	Ifainc (neu ym mis Gorffennaf yn dibynnu ar argaeledd y Garfan Ddata) Trosolwg gan Gonsortiwm Canolbarth y De ynglŷn â'r hyn mae e'n ei ddarparu ar gyfer Rhondda Cynon Taf	Uwch Reolwyr Consortiwm Canolbarth y De			newidiadau ar gyfer trefniadau adrodd data yn y dyfodol. Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â chyfraniad Consortiwm Canolbarth y De tuag at wella safonau yn Rhondda Cynon Taf.
	Adroddiad mewn perthynas â Chartrefi Gofal Preifat (yn RhCT)	Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant Rheolwraig Ranbarthol y 4C (Karen Benjamin)			Derbyn adroddiad mewn perthynas â nifer y darparwyr Cartrefi Gofal Preifat yn RhCT.
	Adroddiad Diogelu Blynyddol (GWYBODAETH YN UNIG)				
	Adroddiad Cwynion Blynyddol (GWYBODAETH YN UNIG)				
25 Medi 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach (Gwasanaeth Addysg)	• Sesiwn Ymgysylltu - Y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant	Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau	√	**Craffu a Her –** Ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran hyrwyddo cyfrifoldebau portffolio'r

			Cynhwysiant		Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
	• Cyflawniad Ysgolion 2018	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant			**Craffu a Her -** Adolygu'r Data Cyflawniad Cyfnod Allweddol ac ystyried p'un a yw'r cymorth priodol ar gael i ysgolion.
9 Hydref 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach (Cyfarfod Gwasanaethau i Blant)	• Sesiwn Ymgysylltu - Y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet	Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant	Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc	√	**Craffu a Her –** Ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran hyrwyddo cyfrifoldebau portffolio'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc.
	• Adolygiad Chwarterol o'r Rhaglen Waith Craffu – Trosolwg a Chraffu	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			• A yw'r Rhaglen Waith yn addas ac yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl? • Aelodau'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau mewn perthynas â'r Rhaglen Waith yn y dyfodol.
	• Adroddiad am Arolwg Eich Llais yn ogystal â diweddariad am yr Arolwg Bright Spot.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Swyddog Datblygu Gwasanaethau Pennaeth Materion Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned			• **Craffu a Her** Er mwyn i'r Aelodau gymharu'r canfyddiadau a gwneud unrhyw welliannau
16 Hydref 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	• Diweddariad ynglŷn â Thlodi Mislif – Nwyddau	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant			**Craffu a Her** - Er mwyn i'r Aelodau adolygu a herio'r cynnydd o ran mynd

(Gwasanaeth Addysg)	Glanweithiol i Fenywod mewn Ysgolion				i'r afael â thlodi mislif mewn ysgolion Iedled Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn dilyn y cynnig a gafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2017.
	• Adolygiad Chwarterol o'r Rhaglen Waith Craffu – Trosolwg a Chraffu	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu			• A yw'r Rhaglen Waith yn addas ac yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl? • Aelodau'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau mewn perthynas â'r Rhaglen Waith yn y dyfodol.
6 Tachwedd 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach (Gwasanaethau i Blant)					
	DIWEDDARIAD GAN CAMHS - ADRODDIAD (i gynnwys gofal iechyd sylfaenol)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant Swyddogion o Wasanaethau Iechyd Meddwl Cwm Taf			**Craffu a Her –** Asesu'r cymorth a gaiff ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg mewn perthynas ag iechyd meddwl plant a phobl ifainc yn RhCT
20 Tachwedd 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	• Strategaeth Mynychu'r Ysgol 2018-21 (Cadw Llygad ar Driwanta a	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant			**Craffu a Her –** Asesu pa mor effeithiol yw Strategaeth Mynychu'r Ysgol, gan gyfeirio'n arbennig at

(Gwasanaeth Addysg)	Pharthau Dim Triwanta)	Pennaeth Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles			effaith y cynllun Parthau Dim Triwanta.
4 Rhagfyr 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach (Gwasanaethau i Blant)	Diweddariad am Blant sy'n Derbyn Gofal (Gostwng nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn y Fwrdeistref Sirol)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant			**Craffu a Her –** Asesu'r ffordd mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr Awdurdod (yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru)
18 Rhagfyr 2019, 5pm Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach (Gwasanaeth Addysg)	• Argymhellion ar gyfer Craffu ar Hysbysiadau Cosb Benodedig	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Pennaeth Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles			Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Craffu dderbyn yr argymhellion sydd wedi'u cynnig gan y Gweithgor Craffu.
	Ysgolion yr 21ain Ganrif (Gwerthuso Adborth ar Ysgolion Band A)	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Pennaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif			**Craffu a Her** - Craffu ar y gwaith o werthuso adborth am Ysgolion Band A

Meysydd Eraill i'w harchwilio:-

Ysgolion yr 21ain Ganrif yn y Dyfodol (Band B)

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifainc

Consortiwm Canolbarth y De

SEREN

Ymgysylltu â Phobl Ifainc

Anghenion Hyfforddi:-

I'w hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf

Gweithgorau Craffu Cyfredol:-

Hysbysiadau Cosb Benodedig